# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 7**

AMRYWIOL

*Darpariaeth bellach mewn perthynas â'r dreth*

**88 Addasu contractau**

(1) Pan fo—

(a) gwarediad trethadwy yn cael ei wneud ar safle tirlenwi awdurdodedig,

(b) contract sy'n ymwneud â'r gwarediad trethadwy sy'n darparu i daliad gael ei wneud, ac

(c) ar ôl gwneud y contract, y dreth sydd i'w chodi ar y gwarediad trethadwy yn newid o ganlyniad i ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth,

mae swm y taliad y darperir ar ei gyfer o dan y contract i'w addasu, oni bai bod y contract yn darparu fel arall, i adlewyrchu'r newid yn y dreth sydd i'w chodi ar y gwarediad trethadwy.

(2) At ddibenion yr adran hon, mae contract sy'n ymwneud â gwarediad trethadwy yn gontract sy'n darparu ar gyfer gwaredu'r deunydd sydd wedi ei gynnwys yn y gwarediad trethadwy, ac nid yw'n berthnasol pa un a yw'r contract hefyd yn darparu ar gyfer materion eraill ai peidio.

(3) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at newid yn y dreth sydd i'w chodi yn gyfeiriad at—

(a) newid o fod dim treth i'w chodi i fod treth i'w chodi,

(b) newid o fod treth i'w chodi i fod dim treth i'w chodi, neu

(c) newid yn swm y dreth sydd i'w godi.

**89 Pŵer i osod atebolrwydd eilaidd ar reolwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i reolwr safle tirlenwi awdurdodedig, neu ran o safle o'r fath, dalu'r dreth sydd i'w chodi ar warediadau trethadwy a wneir ar y safle neu'r rhan o dan sylw, ac mewn cysylltiad â hynny.

(2) Mewn perthynas â rheolwr safle tirlenwi awdurdodedig neu ran o safle o'r fath—

(a) mae'n berson, ac eithrio gweithredwr y safle, sy'n penderfynu, neu sydd â'r hawl i benderfynu, pa warediadau deunyddiau y caniateir eu gwneud ledled y safle neu'r rhan o dan sylw, ond

(b) nid yw'n cynnwys person sy'n penderfynu, neu sydd â'r hawl i benderfynu, pa warediadau a wneir dim ond oherwydd bod y person yn gyflogai neu'n asiant i berson arall.

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill)—

(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ACC gael ei hysbysu os yw person yn dod, neu'n peidio â bod, yn rheolwr ar safle tirlenwi awdurdodedig neu ran o safle o'r fath;

(b) ynglŷn â'r amgylchiadau pan fo'n ofynnol i reolwr dalu treth;

(c) ar gyfer pennu swm y dreth y mae'n ofynnol i reolwr ei dalu;

(d) ynglŷn â'r berthynas rhwng gofyniad i reolwr dalu treth ac unrhyw rwymedigaeth ar weithredwr y safle tirlenwi awdurdodedig i dalu treth;

(e) ynglŷn â'r weithdrefn i'w gwneud yn ofynnol i reolwr dalu treth;

(f) ynglŷn â pha bryd y mae'n rhaid talu'r dreth;

(g) ynglŷn â dyletswyddau i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel;

(h) ar gyfer cosbau mewn cysylltiad â methiannau i gydymffurfio â'r rheoliadau;

(i) ar gyfer adolygiadau ac apelau.

(4) Caiff y rheoliadau ddiwygio neu gymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth.

**90 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016**

Mae Atodlen 4 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i DCRhT.

**91 Arfer pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon**

(1) Wrth arfer eu pwerau a'u dyletswyddau o dan y Ddeddf hon—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r amcan o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru;

(b) caiff Gweinidogion Cymru roi sylw i unrhyw faterion eraill sy'n briodol yn eu barn hwy.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i arfer pwerau a dyletswyddau o dan adran 92.